Ein Gweinidogaeth

IONAWR 2014

WYTHNOS YN CYCHWYN IONAWR 13

Cân 131 a Gweddi

❑ **Astudiaeth Feiblaidd y Gynulleidfa:** *bh* pen. 18 ¶17-25 (30 mun.)

❑ **Ysgol y Weinidogaeth:**

Darlleniad o'r Beibl: Genesis 6-10 (10 mun.)

Rhif 1: Genesis 9:18–10:7 (hyd at 4 mun.)

Rhif 2: Beth Sy'n Cael ei Gynrychioli gan Fedydd Dŵr?—*bh* pen. 18 ¶1-4 (5 mun.)

Rhif 3: Aaron—Byddwch yn Ffyddlon er Gwaethaf Amherffeithrwydd—*it*-1-E t. 10 ¶4–t. 11 ¶3 (5 mun.)

❑ **Cyfarfod Gwasanaeth:**

Cân 69

10 mun: Pwysigrwydd Ailadrodd yn y Weinidogaeth. Anerchiad yn seiliedig ar y llyfr *Ministry School,* tudalennau 206-207. Trefnwch ddangosiad byr sy'n cynnwys o leiaf un o'r pwyntiau o'r wers.

10 mun: Dynion Sy'n Cyflawni Gwaith Da. (1 Tim. 3:13) Cyfwelwch â dau was gweinidogaethol. Pa gyfrifoldebau sydd ganddyn nhw yn y gynulleidfa, a beth mae'r rhain yn eu cynnwys? Pam roedden nhw'n awyddus i fod yn weision? Pam maen nhw'n mwynhau gwasanaethu'r gynulleidfa a helpu'r henuriaid?

10 mun: "Dilynwch Esiamplau'r Proffwydi—Micha." Cwestiynau ac atebion.

Cân 35 a Gweddi

Dilynwch Esiamplau'r Proffwydi—Micha

1 'Pryd daw'r diwedd ar y byd ofnadwy hwn?' Efallai roedd Micha yn myfyrio ar gwestiwn tebyg wrth iddo gyhoeddi barn Jehofah yn erbyn teyrnasoedd Israel a Jwda. Ond nid oedd ei bregethu yn ofer, oherwydd yn 740 COG, yn ystod bywyd Micha, daeth geiriau Jehofah yn erbyn Samaria yn wir. (Mich. 1:6, 7) Yn nes ymlaen, cafodd Jerwsalem ei dinistrio yn 607 COG. (Mich. 3:12) Sut gallwn ni efelychu Micha wrth inni aros am farnedigaeth Jehofah yn ein hoes ni?

1. Ar ba gwestiwn roedd Micha efallai yn myfyrio, a pham nad oedd ei bregethu yn ofer?

2 **Byddwch yn Amyneddgar:** Ysgrifennodd Micha: 'Ond edrychaf fi at Jehofah, disgwyliaf wrth Dduw fy iachawdwriaeth.' (Mich. 7:7) Wrth gwrs, nid oedd Micha yn ddiog wrth iddo aros am y diwedd. Cadwodd yn brysur fel un o broffwydi Jehofah. Wrth i ni ddisgwyl am ddydd Jehofah, dylen ni hefyd fod yn "sanctaidd a duwiol" drwy gadw'n brysur yn y gwirionedd. (2 Pedr 3: 11, 12) Mae amynedd Jehofah yn rhoi amser i unigolion edifarhau. (2 Pedr 3:9) Felly, rydyn ni'n gwrando ar gyngor y Beibl gan ddilyn esiamplau amyneddgar y proffwydi. —Iago 5:10.

3 **Dibynnwch ar Nerth Jehofah:** Er bod gan Micha aseiniad anodd, dibynnodd ef ar Jehofah er mwyn ei gyflawni. (Mich. 3:8) Nid yw'n cyd-ddigwyddiad bod Gair Jehofah yn ein hannog ni i ddibynnu ar nerth Duw. Mae Jehofah yn rhoi nerth yn hael i'r rhai blinedig, er mwyn iddyn nhw gyflawni eu cyfrifoldebau theocrataidd. (Salm 84:5, 7; Esei. 40: 28-31) Ydych chi wedi teimlo nerth Jehofah yn ystod eich gwasanaeth chi? Ydych chi'n ymbil arno'n rheolaidd am help ei ysbryd glân nerthol?—Luc 11:13.

4 Drwy gydol ei oes, blaenoriaeth Micha oedd gwneud ewyllys Duw. Roedd yn benderfynol o gadw'n ffyddlon er bod anfoesoldeb o'i gwmpas. Yn yr un modd, mae ein ffyddlondeb ni yn cael ei brofi bob dydd. Gadewch inni ddal ati i 'rodio yn enw Jehofah ein Duw am byth!'—Mich. 4:5.

2. Sut rydyn ni'n dangos amynedd wrth inni ddisgwyl am ddydd Jehofah, a pham?
3. Pam dylen ni ymbil ar Jehofah am ei ysbryd glân?
4. Sut mae bywyd Micha yn gosod esiampl ardderchog inni heddiw?

WYTHNOS YN CYCHWYN IONAWR 20

Cân 34 a Gweddi

❑ **Astudiaeth Feiblaidd y Gynulleidfa:** *bh* pen. 19 ¶1-7 (30 mun.)

❑ **Ysgol y Weinidogaeth:**

Darlleniad o'r Beibl: Genesis 11-16 (10 mun.)

Rhif 1: Genesis 14:17–15:11 (hyd at 4 mun.)

Rhif 2: Mae Angen Gwybodaeth a Ffydd —*bh* pen. 18 ¶5-7 (5 mun.)

Rhif 3: Abadon—Pwy Yw Angel y Dyfnder? —*it*-1-E t. 12 (5 mun.)

❑ **Cyfarfod Gwasanaeth:**

Cân 123

10 mun: Beth Rydyn Ni yn ei Ddysgu? Trafodaeth. Gofynnwch i rywun ddarllen Mathew 7: 6-11. Ystyriwch sut mae'r adnodau hyn yn ein helpu ni yn y weinidogaeth.

10 mun: Parchu'r Rhai Sy'n Llafurio yn Eich Plith. (1 Thes. 5:12, 13) Trafodaeth yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol: (1) Sut mae'r henuriaid yn gweithio'n galed yn y gynulleidfa? (2) Sut gallwn ni ddangos cariad mawr tuag at yr henuriaid? (3) Pam mae angen anogaeth ar y rhai sydd yn ein harwain? (4) Sut gallwn ni galonogi'r henuriaid a'u teuluoedd? (5) Sut mae bod yn ufudd i'r arweinwyr yn fuddiol i'r gynulleidfa ac i'r henuriaid?

10 mun: "Helpu Eich Gilydd Wrth Bregethu." Cwestiynau ac atebion. Gofynnwch i'r gynulleidfa sôn am bwyntiau ymarferol y maen nhw wedi eu dysgu drwy weithio gydag eraill yn y weinidogaeth.

Cân 93 a Gweddi

Helpu Eich Gilydd Wrth Bregethu

1 Wrth i'r apostol Paul dreulio amser gyda chyd-gredinwyr, cymerodd y cyfle i galonogi eraill, ac i gael ei galonogi hefyd. (Rhuf. 1: 12) Wrth ichi weithio gyda chyhoeddwyr yn y weinidogaeth, ydych chi'n manteisio ar bob cyfle i'w calonogi a'u helpu nhw? Yn hytrach na chadw'n ddistaw, beth am drafod pethau sy'n eich helpu chi i fod yn gyhoeddwr effeithiol?

1. Sut gallwn ni efelychu agwedd yr apostol Paul wrth inni gydweithio ag eraill yn y weinidogaeth?

2 **Meithrin Hyder:** Mae gan rai cyhoeddwyr ddiffyg hyder. Weithiau mae hyn yn ymddangos yn eu hwynebau neu yn eu lleisiau. Gallwn ni fagu eu hyder drwy roi canmoliaeth ddiffuant. Ym mha ffyrdd eraill gallwn ni fagu eu hyder? Tra bod un arolygwr teithiol yn gweithio gydag eraill, mae'n hollol agored am ei bryderon. Mae'n sôn hefyd am ei weddïau i'w helpu i feistroli ei deimladau. Ynglŷn â'r hyn sy'n ei helpu i fod yn hyderus, dywedodd brawd arall: "Mae hyder yn cychwyn gyda gwên. Weithiau mae'n rhaid imi weddïo am help i wneud rhywbeth mor syml â hynny." Oes yna unrhyw beth sydd wedi eich helpu chi i deimlo'n fwy hyderus yn y weinidogaeth? Soniwch amdano wrth eich partner.

3 **Rhannu Dulliau:** Oes gennych chi gwestiwn agoriadol neu frawddeg syml sy'n effeithiol er mwyn cychwyn sgwrs, efallai ynglŷn â digwyddiad lleol? Oes yna rywbeth rydych chi wedi ei ychwanegu at y cyflwyniad enghreifftiol sy'n gweithio i chi? Beth am ddweud wrth eich partner? (Diar. 27:17) Ar y ffordd i un o'ch galwadau, gallwch drafod eich nod ynglŷn â'r ymweliad, a sut rydych chi'n bwriadu ei gyrraedd. Ar ôl astudiaeth Feiblaidd, gallwch egluro pam gwnaethoch chi ddewis y pwyntiau, yr adnodau, neu'r dulliau a oedd yn cyflawni anghenion y myfyriwr.

4 Roedd efengylwyr y ganrif gyntaf yn awyddus i helpu pawb, nid yr anghredinwyr yn unig. Gwelon nhw hefyd bwysigrwydd annog a chadarnhau ei gilydd. (Act. 11:23; 15:32) Hyfforddodd yr apostol Paul Timotheus pan oedd yn ifanc, ac yna fe anogodd ef i rannu'r hyn roedd wedi ei ddysgu ag eraill. (2 Tim. 2:2) Drwy gofio gwneud daioni i'n cyd-Gristnogion yn y weinidogaeth, rydyn ni'n eu helpu nhw i fod yn fwy effeithiol ac yn hapusach. Hefyd, rydyn ni'n plesio ein Tad nefol!—Heb. 13:15, 16.

2. Beth gallwn ni ei wneud i fagu hyder ein partner yn y weinidogaeth, a pham mae hyn yn bwysig?
3. Beth gallwn ni ei rannu gyda'n cyd-weithwyr er mwyn iddyn nhw fod yn fwy effeithiol yn y weinidogaeth?
4. Pam dylen ni fod yn awyddus i helpu ein cyd-weithwyr yn y weinidogaeth?

© 2014 Christian Congregation of Jehovah's Witnesses. *Ein Gweinidogaeth* is printed monthly by Watch Tower Bible and Tract Society of Britain, The Ridgeway, London, NW7 1RN. (Registered in England as a Charity.) Welsh Edition.

WYTHNOS YN CYCHWYN IONAWR 27

Cân 106 a Gweddi

❑ **Astudiaeth Feiblaidd y Gynulleidfa:** *bh* pen. 19 ¶8-16 (30 mun.)

❑ **Ysgol y Weinidogaeth:**

Darlleniad o'r Beibl: Genesis 17-20 (10 mun.)

Rhif 1: Genesis 17:18–18:8 (hyd at 4 mun.)

Rhif 2: Rhannu Gwirioneddau'r Beibl ag Eraill —*bh* pen. 18 ¶8-11 (5 mun.)

Rhif 3: Abba—Beth Yw Gwir Ystyr y Gair "Abba," Ond Sut Mae Dynion Wedi ei Gamddefnyddio?—*it*-1-E tt. 13-14 (5 mun.)

❑ **Cyfarfod Gwasanaeth:**

Cân 121

***5* mun: Cychwyn Astudiaeth o'r Beibl ar y Dydd Sadwrn Cyntaf.** Anerchiad. Eglurwch y trefniadau lleol ar gyfer y weinidogaeth ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Chwefror, ac anogwch bawb i gael rhan. Trefnwch ddangosiad byr sy'n defnyddio'r cyflwyniad enghreifftiol ar dudalen 4.

15 mun: Beth Yw Eich Nodau Ysbrydol? Trafodaeth yn seiliedig ar y llyfr *Organized,* tudalen 117, paragraff 2, i ddiwedd y bennod. Cyfwelwch ag un neu ddau o gyhoeddwyr sydd wedi cyrraedd eu nod o wasanaethu'n llawn amser. Pa anogaeth cawson nhw gan eraill? Pa heriau roedden nhw'n eu hwynebu? Pa fendithion cawson nhw?

10 mun: "Dechrau Astudiaethau Beiblaidd ar Eich Galwadau Cylchgronau." Cwestiynau ac atebion. Gofynnwch i'r gynulleidfa sut llwyddon nhw i ddechrau astudiaethau gyda'u galwadau sy'n derbyn y cylchgronau yn rheolaidd.

Cân 103 a Gweddi

Dechrau Astudiaethau Beiblaidd ar Eich Galwadau Cylchgronau

[1] Mae llawer o bobl yn mwynhau darllen ein cylchgronau, ond dydyn nhw ddim eisiau astudio'r Beibl gyda ni. Felly, am flynyddoedd mae cyfundrefn Jehofah wedi ein hannog ni i ddatblygu galwadau cylchgronau. Wrth i bobl ddarllen ein cylchgronau'n rheolaidd, yn aml maen nhw'n meithrin awydd am Air Duw. (1 Pedr 2:2) Yn y diwedd, gall rhywbeth maen nhw'n ei ddarllen wneud argraff arnyn nhw, ac achosi iddyn nhw dderbyn astudiaeth o'r Beibl.

1. Pam mae cyfundrefn Jehofah wedi ein hannog ni i ddatblygu galwadau cylchgronau?

[2] **'Dyfrhau' Hadau'r Gwirionedd:** Yn hytrach na dosbarthu'r cylchgronau yn unig, beth am ddechrau sgyrsiau ac adeiladu perthnasau gyda phobl? Bydd hyn yn eich helpu i ddysgu am eu hamgylchiadau, eu diddordebau, a'u daliadau, ac yna byddech yn gwybod beth i'w ddweud. (Diar. 16:23) Paratowch ar gyfer pob ymweliad. Trafodwch yn fyr un o'r pwyntiau ac adnodau o'r cylchgronau, gan roi dŵr i hadau'r gwirionedd sydd yn eu calonnau. (1 Cor. 3:6) Nodwch ddyddiad pob ymweliad, y llenyddiaeth gadawsoch chi, a'r pynciau a'r adnodau a gafodd eu trafod.

2. Sut gallwn ni feithrin diddordeb ein galwadau?

[3] **Galw Pa Mor Aml?** Dylech chi alw unwaith y mis ar eich galwadau gyda'r cylchgronau diweddaraf. Ond, wrth ichi ystyried eich amgylchiadau chi, a diddordeb y galwad, efallai byddech chi'n penderfynu galw'n fwy aml. Er enghraifft, wythnos neu ddwy ar ôl ichi adael y cylchgronau, gallwch fynd yn ôl a dweud, "Dwi'n galw i ddangos rhywbeth diddorol yn y cylchgronau wnes i adael gyda chi." Bydd hyn yn codi awydd arno i ddarllen yr erthygl honno. Os yw wedi darllen yr erthygl yn barod, gallwch chi ofyn am ei farn ac yna trafod yr erthygl. Neu, os yw'n mwynhau darllen ein llenyddiaeth, gallwch alw eto i gynnig y traethodyn, y llyfryn, neu'r llyfr rydyn ni'n ei gynnig y mis hwnnw.

3. Pa mor aml dylen ni alw ar ein galwadau cylchgronau?

[4] Peidiwch ag aros i'r deiliad ofyn i chi am astudiaeth. Cymerwch y cam cyntaf. Hyd yn oed os yw wedi gwrthod astudiaeth yn y gorffennol, bob hyn a hyn gallwch ddangos erthygl o'r gyfres "Bible Questions Answered" o'r *Watchtower* a gweld os yw'n fodlon i'w thrafod. Efallai gallwch gychwyn astudiaeth wrth y drws. Ond, os na allwch chi ddechrau astudiaeth, gallwch ddal i alw gyda'r cylchgronau er mwyn meithrin ei ddiddordeb.

4. Beth gallwch chi ei drio o dro i dro er mwyn gweld os yw eich galwadau yn barod i astudio'r Beibl?

WYTHNOS YN CYCHWYN CHWEFROR 3

Cân 22 a Gweddi

❑ **Astudiaeth Feiblaidd y Gynulleidfa:** *bh* pen. 19 ¶17-23 (30 mun.)

❑ **Ysgol y Weinidogaeth:**

Darlleniad o'r Beibl: Genesis 21-24 (10 mun.)

Rhif 1: Genesis 23:1-20 (hyd at 4 mun.)

Rhif 2: Pa Gam Pwysig y Mae'n Rhaid Ichi ei Gymryd Cyn Cael Eich Bedyddio?—*bh* pen. 18 ¶12-16 (5 mun.)

Rhif 3: Abel—Dangos Ffydd Sy'n Plesio Duw —*it*-1-E t. 15, Abel Rhif 1 (5 mun.)

❑ **Cyfarfod Gwasanaeth:**

Cân 81

10 mun: Cynigiwch y Cylchgronau ym Mis Chwefror. Trafodaeth. Cychwynnwch gyda dangosiad o sut i gynnig y cylchgronau, gan ddefnyddio'r cyflwyniadau enghreifftiol ar y dudalen hon. Trafodwch yn fanwl y cyflwyniad enghreifftiol o'r dechrau i'r diwedd drwy ddarllen pob rhan, brawddeg neu ddwy ar y tro, gan ofyn i'r gynulleidfa egluro ei phwrpas. Atgoffwch y cyhoeddwyr y dylen nhw ddefnyddio eu geiriau eu hunain, a'i bod hi'n iawn iddyn nhw addasu'r cyflwyniad enghreifftiol neu baratoi un gwahanol. Gorffennwch drwy annog pawb i ddod yn gyfarwydd â chynnwys y cylchgronau ac i fod yn selog wrth eu dosbarthu.

10 mun: Anghenion lleol.

10 mun: Wrth eu Ffrwythau y Byddwch yn eu Hadnabod Nhw. (Math. 7:16) Trafodaeth yn seiliedig ar *Yearbook 2013,* tudalen 47, paragraffau 1-2; a thudalen 52, paragraff 1, i dudalen 53, paragraff 1. Gofynnwch i'r gynulleidfa esbonio'r hyn y maen nhw wedi ei ddysgu.

Cân 25 a Gweddi

Cyhoeddiadau

■ Y cynnig ar gyfer **Ionawr a Chwefror:** *Newyddion Da Oddi Wrth Dduw!* **Mawrth ac Ebrill:** *Ydy Duw yn Gwir Ofalu Amdanon Ni?* neu *Dod yn Ffrind i Dduw!*

■ **Y ddogfen Advance Decision to Refuse Specified Medical Treatment:** Os yw pedair blynedd wedi mynd heibio ers i gyhoeddwyr wneud eu dogfen *Advance Decision,* fe ddylen nhw gwblhau un newydd. Mae'r dogfennau ar gael wrth y cownter llenyddiaeth.

■ Cynhaliwyd seremoni graddio ar gyfer y pumed dosbarth o'r Ysgol Feiblaidd ar Gyfer Cristnogion Priod ar 5 Hydref, 2013 yn Neuadd y Deyrnas Clondalkin, Dulyn, yn Iwerddon. Gwelodd 200 o bobl a oedd yn bresennol 12 cwpl yn graddio ac yn derbyn nifer o wahanol aseiniadau.

■ **Ysgol Arloesi:** Eleni, cafodd 65 o ysgolion eu cynnal ym Mhrydain ac Iwerddon, mwy nag erioed. Cofrestrwyd 2,366 o fyfyrwyr. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant yr ysgolion, un ai drwy roi lletygarwch, neu drwy helpu mewn unrhyw fodd arall.

Cyflwyniadau Enghreifftiol

I Ddechrau Astudiaethau Beiblaidd ar y Dydd Sadwrn Cyntaf ym Mis Chwefror

"Mae gan bawb ei farn ei hun am y Beibl. Mae rhai yn credu mai'n Air Duw, ond mae eraill yn meddwl ei fod yn llyfr cyffredin. Beth ydych chi'n meddwl amdano?" Arhoswch am ymateb. Trowch at wers 3 o'r llyfryn *Newyddion Da Oddi Wrth Dduw!* Trafodwch y wybodaeth o dan yr ail gwestiwn ac o leiaf un o'r adnodau. Cynigiwch y llyfryn, a threfnwch i fynd yn ôl i drafod y cwestiwn nesaf.

THE WATCHTOWER® ANNOUNCING JEHOVAH'S KINGDOM Chwefror 1

"Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dymuno gweld heddwch yn y byd yn lle rhyfela. Ydych chi'n meddwl bod hynny'n obaith realistig? [Arhoswch am ymateb.] Sylwch ar beth mae'r Beibl yn ei addo. [Darllenwch Salm 46:9.] Mae digwyddiadau yn ystod ac ar ôl y Rhyfel Byd I yn ddiddorol oherwydd maen nhw'n dangos bydd Duw yn cael gwared ar ryfel am byth. Mae'r cylchgrawn yma'n egluro mwy."

Awake!® Chwefror

"Mae llawer yn teimlo nad oes ganddyn nhw ddigon o amser, a'u bod nhw'n rhuthro o un peth i'r nesaf. Ai oherwydd mae gennyn ni ormod i wneud, neu oherwydd ein bod ni'n gwastraffu gormod o amser? [Arhoswch am ymateb.] Dydy llawer ddim yn sylweddoli bod cyngor ymarferol yn y Beibl am sut i reoli ein hamser. Dyma enghraifft. [Darllenwch Pregethwr 11:4.] Mae'r cylchgrawn yma yn trafod pedwar peth sydd wedi helpu llawer i reoli eu hamser yn well."

Uchafbwyntiau o'r Maes

Cafodd Prydain ac Iwerddon uchafswm newydd o gyhoeddwyr ac arloeswyr parhaol yn ystod mis Awst. Ar ddiwedd blwyddyn wasanaeth 2013 roedd 136,993 o gyhoeddwyr, gan gynnwys 11,202 o arloeswyr parhaol. Yn Iwerddon roedd 6,291 o gyhoeddwyr, gan gynnwys 668 o arloeswyr parhaol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 2,539 eu bedyddio ym Mhrydain, a 120 yn Iwerddon. Hoffem ddiolch i Jehofah am fendithio ein hymdrechion yn y gwaith pregethu.

km14 01-W Bi 131021